Deddf yr Amgylchedd 1995 Rhan IV Adran 83 (1)

Cyngor Sir Caerfyrddin
Gorchymyn Ardal Rheoli Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan arfer ei bwerau o dan Adran 83(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Gellir dyfynnu/cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin [Caerfyrddin 2016] a ddaw i rym ar 2 Awst 2016

Bydd yr ardal a ddynodir ar y map atodedig o fewn y ffin las yn cael ei dynodi'n ardal rheoli ansawdd aer (yr ardal ddynodedig). Mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys cyffordd Heol Ffynnon Job ar y B4312 yn Nhre Ioan ac yn mynd i'r cyfeiriad dwyreiniol i fyny Rhiw'r Gofeb ac i lawr Heol Picton hyd at gylchfan Heol y Gwyddau. Mae'n parhau ar hyd Heol y Gwyddau, gan deithio i'r gogledd i fyny Stryd y Dŵr i'r gyffordd â Ffordd Glannant a Stryd Pentrefelin, ymlaen i Heol y Sgubor a Theras Francis hyd at Waun Dew cyn troi i'r chwith ar hyd Lôn yr Hen Dderwen a chyrraedd cylchfan yr Hen Dderwen. Mae'r ffin yn mynd i gyfeiriad y dwyrain ar hyd Stryd y Prior, drwy Abaty'r Ddol hyd at gylchfan y Tanerdy ar yr A484, sef man mwyaf dwyreiniol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Wrth gylchfan yr Hen Dderwen, mae'r ffin hefyd yn mynd tua'r de ar hyd Stryd y Prior a Stryd yr Eglwys, Stryd Spilman ac ymlaen i'r gyffordd ar yr A484 islaw Neuadd y Sir. Mae'r ffin yn mynd i gyfeiriad y de dros Bont Tywi hyd at gylchfan Pont Tywi, sef man mwyaf deheuol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. O'r gyffordd islaw Neuadd y Sir, mae'r ffin yn mynd tua'r gorllewin ar hyd Ffordd y Cwrwg ac ymlaen i gylchfan y Morfa cyn teithio tua'r gogledd i fyny Lôn Morfa hyd at gylchfan Heol y Gwyddau, cyn troi i'r gorllewin yn ôl i gyffordd Ffordd Ffynnon Job gan gwblhau ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

Mae'r Ardal hon wedi'i dynodi mewn perthynas â thorri amcan nitrogen deuocsid (cymedrig blynyddol) fel y nodwyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000.

Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym hyd nes y mae'n cael ei amrywio neu'i ddirymu gan orchymyn dilynol.

Gosodwyd Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar 2 Awst 2016 a'i llofnodi ym mhresenoldeb / ar ran y Cyngor dan sylw

Linda Rees-Jones

14770

Carmarthen AQMA Boundary Map



0 100 200 300m

Graddfa Scale 1:10000

Canol y Map Map Centre [241252.7,220376.9]

Dyddiad Date 22/02/2016

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2016. Ordnance Survey 100023377

LR-7